# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ATAL A DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 18 GORFFENNAF 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| U C Clay | J P Curtice | C R Doyle |
| E J King | R V Smith | |

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd E T Kirchner

**Swyddog**

Jeremy Parkhouse Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J A Hale a/ac T M White

11 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

12 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.

13 **CYFLWYNIAD - GOFALWYR.**

Darparodd y Cynghorydd E T Kirchner fanylion i'r pwyllgor o'r gwaith a wnaed gyda'r gofalwyr. Nododd ei bod hi'n cynnal cymhorthfa misol lle'r oedd hi'n cwrdd â gofalwyr, ei bod hi'n ymwybodol o'r problemau a oedd yn eu hwynebu a sut roedd gofalwyr yn darparu syniadau newydd i broblemau. Ychwanegodd y dylai'r Cynghorydd P B Smith, Cynghorydd Hyrwyddwr dros Ofalwyr, gymryd rhan hefyd mewn trafodaethau yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Kirchner wedi cwrdd ag Eleanor Norton, Cyfarwyddwr Gweithredol Canolfan Ofalwyr Abertawe, er mwyn tynnu sylw at t problemau y mae gofalwyr yn eu hwynebu yn eu bywydau pob dydd. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn cynnal cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf a drefnir a bydd hefyd yn gwahodd gofalwyr i ddod fel y gallant ddarparu tystiolaeth i'r pwyllgor.

Tynnwyd sylw at nifer o faterion yn ystod y drafodaeth gan gynnwys: -

- Yr ymdrech gyson y mae'n rhaid i ofalwyr ei gwneud er mwyn derbyn gwasanaethau a'r effaith flinderus y mae hyn yn ei chael ar unigolion;
- Y ffaith bod gofalwyr yn clywed dro ar ôl tro eu bod nhw ond yn gallu cael mynediad i wasanaethau os ydynt "mewn argyfwng", bod pobl y mae angen cymorth arnynt yn cael eu gwrthod a bod gofalwyr yn dod ar draws rhwystrau;
- Rhwystrau o fewn y system, yn enwedig o fewn yr awdurdod, a'r angen am hyfforddiant staff er mwyn osgoi rhwystrau o'r fath;
- Mae angen cydnabod bod gofalwyr yn arbed swm sylweddol o arian i'r awdurdod.
- Y problemau y mae gofalwyr sy'n rhieni yn eu cael i annog eu plant i fynd i sefydliadau addysgol a'u cadw nhw yno;
- Y problemau y mae gofalwyr sy'n rhieni yn eu cael i gael swydd a'r angen i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, e.e. bod angen i'r Ganolfan Byd Gwaith fynd i'r afael â'r materion hyn ac i ddarparu cefnogaeth;
- Diffyg gofal seibiant ar gael i ofalwyr a chleifion;
- Annhegwch y ffordd mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) yn ymdrin ag achosion gofalwyr.
- Y ffaith y darperir lwfans gofal ar gyfer un claf yn unig, ni waeth beth yw nifer y bobl y mae'r gofalwr yn edrych ar eu hôl a bod pobl mewn gwaith yn cael eu cosbi'n ariannol;
- Diffyg cydnabyddiaeth, cefnogaeth a pharch am ofalwyr;
- Y diffyg dealltwriaeth a roddir i ofalwyr ifanc a sut mae eu sefyllfa yn eu heithrio'n annheg o gyfleoedd mewn bywyd;
- Goblygiadau'r Bil Anghenion Dysgu
- Gofynion deddfwriaethol asesiadau gofalwyr statudol;
- Cynigion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gofalwyr;
- Sefyllfaoedd a wynebir gan bobl ddiamddiffyn ag anableddau dysgu sy'n byw gyda'u rhieni hŷn yn llety'r Gymdeithas Tai/Cyngor pan fo'r rhieni'n marw neu'n symud i gartref gofal.

**PENDERFYNWYD**:

1) Nodi cynnwys y trafodaethau;
2) Gwahodd Eleanor Norton, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofalwyr Abertawe a gofalwyr i'r cyfarfod nesaf a drefnir er mwyn cynnal cyflwyniad ynglŷn ag effaith deddfwriaeth ar ofalwyr;
3) I'r Cadeirydd drafod â Chadeirydd Addysg Cabinet ar Gymunedau am ofalwyr ifanc;
4) Gwahodd y Cynghorydd E T Kirchner a P B Smith i'r cyfarfod nesaf a drefnir;
5) I'r Cadeirydd ysgrifennu i'r Adran Dai/Cymdeithasau Tai ynglŷn â sefyllfaoedd a wynebir gan bobl ddiamddiffyn ag anableddau dysgu sy'n byw gyda'u rhieni hŷn yn llety'r Gymdeithas Tai/Cyngor pan fo'r rhieni'n marw neu'n symud i gartref gofal.

## 14 Y POLISI CYLLID SY'N YMWNEUD Â DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 - Y DIWEDDARAF.

Cyfeiriodd y cadeirydd at Bolisi Codi Tâl yr awdurdod a ddarperir yn Atodiad 1 o'r adroddiad a gofynnod am sylwadau o'r Pwyllgor. Trafodwyd y canlynol: -

- Dyfodol Canolfannau Dydd a'r opsiwn o godi tâl at bobl (rhywbeth sy'n well gan lawer o bobl) yn lle cau'r canolfannau;
- Effaith y cyflog byw ar y rhestr daliadau;
- Cartrefi gofal preifat yn codi taliadau uwch;
- Y problemau a wynebir drwy godi tâl i bobl ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu o'u gymharu â phobl sydd wedi ymddeol a oedd wedi gweithio ac wedi cael pensiwn ymddeol.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

## 15 YMWELIAD ARFAETHEDIG Â CHYNGOR SIR FYNWY. (LLAFAR)

Nododd y cadeirydd ei bod hi wedi cysylltu â Chyngor Sir Fynwy ac y byddai'n trefnu ymweliad ac yn gwahodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn i ddod.

## 16 RHAGLEN WAITH 2016-17.

Cyflwynodd y cadeirydd raglen waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD**:

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Cynnal cyflwyniad o gynrychiolydd Gofalwyr Abertawe yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
3) Cwblhau trefniadau ar gyfer yr ymweliad i Gyngor Sir Fynwy;
4) Trafod Grantiau Cyfleusterau Anabl yn y cyfarfod nesaf a drefnir ar gyfer dydd Llun, 19 Medi 2016;
5) Trafod Llety Lloches yn y cyfarfod a drefnir ar gyfer dydd Llun, 19 Medi 2016;
6) Trefnu cyfarfod ar y cyd gyda PCC ar Ddatblygiad er mwyn trafod CCTV.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50 pm

**CADEIRYDD**